What to do now?

Os ydych chi wedi adnabod ymddygiadau **OREN**, neu **COCH**, peidiwch a cael panic. Mae nifer o resymau all fod yn reswm pam fod y plentyn yn arddangos yr ymddygiadau yma. Y peth pwysicaf ydy i beidio cynhyrfu, ac i siarad hefo rhywyn proffesiynol allwch chi drystio, e.e. athro eich plentyn.

Mi fydden nhw yn gallu rhoi cymorth i chi ac i ymateb i'r ymddygiadau yn y ffordd cywir.

Am fwy o wybodaeth am ymddygiadau rhywiol datblygiadol briodol ac syt i ymateb;

www.brook.org.uk

www.nspcc.org.uk

www.barnardos.org,uk

www.stopitnow.org.uk

Os ydych chi yn bryderys am Ymddygiad eich plenty chi neu blentyn arall, cysylltwch â;

Eich nyrs ysgol

Athro y plentyn

Eich GP

Dod i Ddeall Ymddygiadau Rhywiol Iach

Arweiniad i ddeall ymddygiadau ac iaith rhywiol plant a phobl ifanc i rieni / gofalwyr

8 - 12 OED

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

brook

EMRALLT TEAM

Mae ymddygiadau rhywiol gwyrdd sy'n addas i blant oed 8 - 12 yn ymddygiadau sy'n cael eu arddangos rhwng blant a phobl ifanc o'r ryn oed neu ar yr un lefel yn ddatblygiadol, yn cynnwys chwilfrydedd naturiol, arbrofi, gweithgareddau cydsyniol a dewisiadau positif.

Gall ymddygiadau GWYRDD edrych fel;

Angen cynyddol am breifatrwydd

Mastyrbio, gydag ymwybyddiaeth gynyddol o breifatrwydd

Chwilfrydedd ynghylch organau cenhedlu plant eraill sy'n cynnwys edrych ar a / neu gyffwrdd cyrff plant cyfarwydd

Dangos chwilfrydedd ynglyn â rhannau preifat ond parchu preifatrwydd pobl eraill

Cofleidio, cusanu, fflyrtio, cyffwrdd cyfoedion hysbys

Diddordeb a/neu gymryd rhan mewn perthynas â chyfoedion o unrhyw ryw

Chwilfrydedd a cheisio gwybodaeth am rywioldeb

Defnyddio iaith rhywiol

Cyfathrebu ar-lein gyda theulu a chyfoedion hysbys

Gall ymddygiadau oren fod â potensial i fod yn beryglyus ac yn aniachus.

Gallen nhw fod yn ymddygiadau sydd yn anarferol i'r plentyn, neu yn codi pryder o achos oed neu gwahaniaethau datblygiadol. Gall amledd, parhad, a math y digwyddiad godi pryderon pellach.

Gall ymddygiadau OREN edrych fel:

Mastyrbio yn hytrach na gweithgareddau eraill

Gwylio rhannau preifat o gyrff pobl eraill / gweithgareddau preifat yn fwriadol

Newidiadau amlwg i'w hymddygiad e.e. dynwared ymddygiad fflyrtio rhywun hyn

Efelychu gweithgareddau rhywiol e.e. rhyw geneuol, cyfathrach rywiol heb dynnu dillad

Mastyrbio ei hunan / cydsyniol gyda chyfoedion hysbys a dieithr

Cofleidio, cusanu, fflyrtio, cyffwrdd cyfoedion dieithr

Mynegiant parhaus o ofn haint a drosglwyddir yn rhywiol neu feichiogrwydd

Haint y llwybr wrinol yn rheolaidd

Cyfathrebu ar-lein gyda phobl hysbys a allai gynnwys rhannu manylion adnabod personol

Ymddygiadau coch yw'r ymddygiadau sydd yn beryglus ac yn niweidiol.

Gall ymddygiadau coch gynnwys cyfrinachedd, gorfodaeth, bygythiad a gwahaniaethau pwer, oed, a datblygiad plentyn. Mae amlder, hyd a cyd-destyd yr ymddygiad hefyd yn rôl mawr o ymddygiad coch.

Gall ymddygiadau COCH edrych fel;

Mastyrbio gorfodol

Bwlio parhaus sy'n cynnwys ymddygiad ymosodol rhywiol

Yn diraddio neu'n bychanu eu hunain neu eraill gan ddefnyddio themâu rhywiol

Datgelu camdriniaeth rywiol

Gweithgaredd rhywiol neu dreiddio gydag anifeiliaid, doliau/ teganau wedi'u stwffio

Gweithgaredd rhywiol yn gyfnewid am eitemau materol neu freintiau

Arwydd o haint a drosglwyddir yn rhywiol neu feichiogrwydd

Cyfathrebu ar-lein gyda phobl hysbys a dieithr i anfon neu gyhoeddi delweddau, fideos neu dapiau sain rhywiol o'u hunain neu berson arall